



Pwyllgor Cynllunio a Datblygu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal brynhawn Iau, 15 Mawrth 2018 am 5pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Aelodau o'r Pwyllgor Datblygu a Chynllunio oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple

Y Cynghorydd J Bonetto

Y Cynghorydd D Grehan

Y Cynghorydd G Hughes

Y Cynghorydd A Davies-
Jones

Y Cynghorydd J Williams

Y Cynghorydd S Powell

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr C Jones, Rheolwr Materion Rheoli Datblygu

Mr S Zeinali, Rheolwr Rheoli Datblygiad y Priffyrdd

Mr S. Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S. Rees-Owen

148 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

149 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

150 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

151 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2018 yn rhai cywir.

152 CAIS: 17/0890

Newid defnydd gardd ddomestig i ardal weini ychwanegol annomestig ar gyfer gwesty/bistro ac adeiladu uned storio beiciau yn y cefn. (Disgrifiad diwygiedig wedi'i dderbyn 04/10/17, dyluniadau diwygiedig wedi'u derbyn 04/10/17 a 10/10/17, Cardiff Arms Hotel, Bute Street, Treorci.

(**Noder:** Ar y pwynt yma, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J William y cyfarfod oherwydd galwad ffôn. Doedd y Cynghorydd ddim yn bresennol wrth i'r Pwyllgor drafod y cais)

PENDERFYNODD Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

153 CAIS: 17/0957

Gwaith allanol arfaethedig i'r ardd gefn. (Cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn 22/01/2018, GROOMBRIDGE, 1A Other Street, Ynys-y-bwll, Pontypridd.

PENDERFYNODD Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

154 CAIS: 18/0002

Estyniad dwbl i'r cefn a chyntedd blaen, 17 Dyffryn Road, Rhydfelen, Pontypridd.

PENDERFYNODD Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

155 CAIS: 17/1231

Dymchwel tŷ tafarn blaenorol ac adeiladu 9 fflat fforddiadwy, parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig – The Griffin Public House, 48-49 Stryd Carne, Pentre, CF41 7LD.

Roedd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu wedi rhannu'r newyddion diweddaraf ynglŷn â'r cais, a gafodd ei gyflwyno o flaen y Pwyllgor am y tro cyntaf 1 Chwefror, 2018. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, penderfynodd Aelodau ohirio'r cais er mwyn i Swyddogion gael eglurhad ynglŷn â phryd caeodd y safle ac ers pryd dyw'r safle ddim wedi bod yn masnachu. (Gweler cofnodion 129). Cafodd y cais ei drafod eto gan Aelodau yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar 15 Chwefror, 2018, lle penderfynodd Aelodau eu bod nhw o blaid gwrthod y cais, yn groes i argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Y rheswm am hyn oedd bod Aelodau o'r farn bod y cynnig yn gorddatblygu'r safle a byddai'r cynnig yn cael sawl effaith anffafriol ar yr

amwynderau sy'n cael eu mwynhau gan breswylwyr cyfagos.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan drigolion lleol a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Rhoddodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu wybod bod yr ymgeisydd wedi apelio yn erbyn methiant y Cyngor i wneud penderfyniad a gofynnwyd i aelodau nodi sut bydden nhw wedi pleidleisio pe bai'r Awdurdod Cynllunio Lleol dal yn meddu ar y grym i allu gwneud penderfyniad. **PENDERFYNODD** Aelodau y bydden nhw'n gwrthod y cynnig, pe bai'r Pwyllgor yn meddu ar y grym i wneud penderfyniad, oherwydd y ddau reswm sydd wedi'u nodi yn Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

156 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 19/03/2018 tan 02/03/2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10pm

**Y CYNGHORYDD S. REES
CADEIRYDD**